# Y Fframwaith hunan-adolygu

## Elfen 4 (Canllawiau)

# Asesu

Mae’r canllaw yma i’r fframwaith hunan-adolygu yn cynnwys yr holl ddatganiadau y byddwch yn barnu eich ysgol yn eu herbyn ar gyfer Elfen 4. Mae hefyd yn cynnwys cwestiynau ac yn awgrymu ffynonellau o dystiolaeth y gallwch eu hystyried fel cefnogaeth i’ch barnau. Mae fersiwn arall o’r ddogfen hon ar gael ar ffurf ffeil Word, lle mae’r adran gwestiynau wedi ei gyfnewid am ffrâm destun ar gyfer cofnodi eich tystiolaeth eich hunan. Efallai yr hoffech ddefnyddio’r ddogfen honno cyn bwydo’r wybodaeth i mewn i’r system ar-lein, ond mae’n hanfodol eich bod yn cwblhau’r hunan-adolygiad ar-lein cyn gwneud cais i gael eich asesu ar gyfer y Marc TGCh.

Gellir defnyddio’r canllaw yma i’r fframwaith hunan-adolygu ochr yn ochr â’r disgrifiadau lefel yn Elfen 4 gan Becta i’ch helpu i wneud penderfyniad ynglŷn â’ch sefyllfa yn natblygiad TGCh ar gyfer yr elfen ‘Asesu’.

Mae Becta yn argymell yn gryf y dylech ddefnyddio’r offer hunan-adolygu ar-lein yn hytrach na’r fersiwn papur.

Ionawr 2009

## Elfen 4 - Asesu

### 4a Asesu TGCh ac asesu gyda TGCh

Mae gan yr elfen hon un llinyn sy'n ymwneud â'r ffordd y mae medr TGCh yn cael ei asesu. (mae medr mewn TGCh yn llawer ehangach na chaffael set o fedrau technegol mewn cymhwyso meddalwedd, er mae'n amlwg fod y rhain yn bwysig. Mae medr TGCh yn ymwneud â dewis priodol, defnydd a gwerthusiad o TGCh. Yn ei hanfod, mae angen i ddisgyblion wybod pa TGCh sydd ar gael, pryd i'w ddefnyddio a pham ei fod yn ddas i'r dasg). Mae dau gyd-destun i'r asesiad hwn: un ydy cyd-destun TGCh fel pwnc arwahanol a'r lladd ydy cyd-destun ei ddefnydd mewn pynciau eraill. Sylwch mai, yn y llinyn hwn, yr asesiad yn y ddau achos ydy medr TGCh ac ni ddylid cymysgu hyn gydag asesiad pwnc. Mae'r llinyn hefyd yn helpu ysgolion i ystyried pa un a ydynt yn gwneud defnydd effeithiol o TGCh i reoli'r broses asesu.

Bydd disgyblion yn gwneud cynnydd ddim ond os oes ganddyn nhw a'u hathrawon ddealltwriaeth dda o'u cryfderau a'u gwendidau a'r safonau y dylent anelu atynt. Mae gweithdrefn asesiad dibynadwy wedi ei gysylltu â deialog effeithiol yn hanfodol yn hyn o beth. Dyw'r fframwaith ddim yn gwneud unrhyw dybiaeth ynghylch y prosesau y gesyd athrawon yn eu lle i asesu gwaith disgyblion, nac am sut y dylai asesiad gael ei gofnodi. Beth a wna ydy cynorthwyo i ddiffinio nodweddion allweddol asesiad effeithiol a chysylltu hyn i gynllunio ar gyfer gwelliant.

| 4a-1 Dibynadwyedd | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae asesiad o fedrau TGCh ein disgyblion ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| yn cael ei gyflawni | yn aml | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn rheolaidd |
| wedi'i warchod | annibynadwy | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | dibynadwy iawn |
| yn cael ei gofnodi'n briodol | anfynych | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | bob amser |
| wedi ei gyd-gysylltu ac yn defnyddio enghreifftiau | o wersi TGCh yn unig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ar draws y cwricwlwm |
| yn cael ei safoni | o fewn yr ysgol | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | rhwng ysgolion |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Oes systemau cydlynol a chyson mewn lle i alluogi'r ysgol wneud asesiadau dibynadwy o fedrau TGCh disgyblion?
- Sut mae'r ysgol yn sicrhau fod asesiad o fedrau yn cymryd TGCh i ystyriaeth fel pwnc arwahanol a'i gymhwysiad mewn pynciau eraill?
- Beth mae'r ysgol yn ei wneud i sicrhau cysondeb safon pan fo TGCh yn cael ei asesu mewn nifer o wahanol gyd-destunau pwnc?
- Oes yna safoni'r broses asesiad a deilliannau o fewn yr ysgol?
- Ydy ysgol yn ceisio safoni safonau gydag ysgolion eraill er mwyn profi eu safon a'u harferion eu hunain?

## Elfen 4 - Asesu

### 4a Asesu TGCh ac asesu gyda TGCh

| 4a-2 Hunan-asesu ac asesu cymheiriaid | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae hunan asesiad ac asesiad cyfoedion o waith TGCh ein disgyblion yn ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| digwydd | yn anaml | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn aml |
| cynnwys | eu gwaith eu hunain | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | gwaith eraill |
| effeithio ar welliannau | yn anaml | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | bob amser |
| yn eu cynnwys hwy mewn adnabod meini prawf | byth | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn aml |
| anhepgor i'w dysgu | dim ond yn yr ysgol | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn yr ysgol a thu hwnt |
| yn rhoi deilliannau sy'n | annibynadwy | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | gywir |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- I ba raddau y mae'r disgyblion ynghlwm wrth hunan asesiad eu medrau TGCh?
- Ydy hunan werthusiad wedi ei gyfyngu i ddatblygiad sgiliau sylfaenol neu ydy disgyblion yn cael eu galluogi i wneud dyfarniad am ansawdd cyffredinol eu gwaith TGCh, y safonau y gwnaethant gyflawni a beth sydd raid iddynt wneud i wella ymhellach?
- Ydy disgyblion yn gallu diffinio eu meini prawf eu hunain ar gyfer llwyddiant? Ydyn nhw'n ddigon gwybodus am TGCh i allu gosod safonau uchel iddynt eu hunain?
- Ydy disgyblion ynghlwm wrth asesiad gwaith eraill mewn dull adeiladol a thra gwybodus? Ydyn nhw'n allu trafod ansawdd a safon eu gwaith eu hunain ac eraill er mwyn gwella?
- I ba raddau mae disgyblion yn hunan asesu eu defnydd o TGCh mewn gwaith a wneir tu hwnt i'r ysgol?

| 4a-3 Deialog | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae ymgymeriad staff mewn deialog gyda disgyblion ynglŷn â'u medrau TGCh yn ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| digwydd gan | ychydig staff | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yr holl staff |
| digwydd | yn anaml | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn rheolaidd |
| yn effeithio ar ddeilliannau disgyblion | ychydig iawn | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn fawr iawn |
| yn darparu manylion ac ansawdd sy'n | isel | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | uchel |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Oes yna ddigon o arbenigedd ymysg y staff er mwyn bod yna ddeialog effeithiol a thra-hyddysg am fedrau TGCh?
- I ba raddau y gall yr holl staff asesu medrau TGCh yn ddibynadwy a chynorthwyo disgyblion i wella?
- Ydy deialog am fedrau TGCh yn gyson ar draws yr ysgol?
- Beth ydy safon adborthi'r disgyblion am eu gwaith TGCh?
- A osodir targedau ar gyfer gwella, os gwneir hynny, gan bwy?

## Elfen 4 - Asesu

### 4a Asesu TGCh ac asesu gyda TGCh

| 4a-4 | Defnyddio TGCh i gefnogi asesiad | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae ein defnydd o TGCh i gefnogi asesiad a llwyddiant disgyblion yn ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| cynnwys | ychydig staff | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yr holl staff |
| cynnwys | ychydig ddisgyblion | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yr holl ddisgyblion |
| cynnwys amrywiaeth o arferion sy'n | gyfyng | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | eang |
| cynnwys amrywiaeth o dechnolegau sy'n | gyfyng | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | eang |
| defnyddio storio gwaith disgyblion ar-lein | byth | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn aml |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- I ba raddau a pha mor aml mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o TGCh i gefnogi gweithdrefnau asesu?
- Pa gyfran o'r staff sy'n ddigon hyderus i wneud defnydd o systemau asesu sy'n bodoli yn yr ysgol?
- Pa gyfleoedd sydd gan ddisgyblion i ddefnyddio TGCh i gofnodi eu llwyddiannau?
- Oes yna amrywiaeth o arferion a gweithgaredd asesu sy'n cael eu cefnogi gan TGCh?
- I ba raddau yr anogir disgyblion i gofnodi amrediad eang o dystiolaeth electronig i arddangos eu llwyddiannau? Sut y gwneir hyn?
- Oes defnydd effeithiol yn cael ei wneud o adnodd hwn?

| 4a-5 | Targedau ar gyfer gwella medrau TGCh | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae targedau ar gyfer gwella medrau TGCh wedi eu ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| gosod ar gyfer disgyblion unigol | byth | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | bob amser |
| gosod ar gyfer yr ysgol gyfan | byth | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | bob amser |
| holrhain | arwynebol | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn drwyadl |
| gosod i fod yn | heb fod yn heriol | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | heriol |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Ydy'r ysgol yn gosod targedau ysgol gyfan a thargedau unigol ar gyfer cyrhaeddiad?
- Gyda phwy y rhennir y targedau?
- Ydy targedau rhifol yn cael eu trosi'n weithrediadau ar gyfer niferoedd, dosbarthiadau a disgyblion unigol?
- A ddefnyddir y fath dargedau i arwain gwelliannau ar gyfer disgyblion?
- Pa mor effeithiol y mae olrhain cynnydd disgyblion yn erbyn targedau?
- Ydy'r targedau sy'n cael eu gosod ar gyfer yr ysgol yn heriol ac yn cael eu deall gan yr holl staff?

**Tystiolaeth:**
Polisi asesu'r ysgol. Polisi TGCh yr ysgol. Tystiolaeth o ymarferion safoni gydag ysgolion eraill neu o fewn yr ysgol. Tystiolaeth gan arweinwyr pwnc neu adrannau am eu gallu i asesu medr TGCh a darparu adborth dibynadwy i ddisgyblion. Tystiolaeth gan ddisgyblion am eu harfer hunan asesu ac asesu cyfoedion. Tystiolaeth o ddefnydd systemau TGCh yr ysgol i gofnodi a rheoli asesiad. Tystiolaeth wedi ei dynnu o systemau TGCh yr ysgol. Tystiolaeth o'r targedau a osodwyd, prosesau olrhain ac effaith y rhain ar gyfer disgyblion unigol. Tystiolaeth o bortffoliau gwaith disgyblion.